

# Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin

Mae arfordir Sir Gaerfyrddin gyfan bron yn gynefinoedd blaenoriaeth Cymreig (Adran 7). Y cynefinoedd hyn yw'r llain pontio rhwng y tir a'r môr a gallant fod yn ddynamig iawn, yn newid gydag amser. Mae'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yma wedi'u cyfyngu'n aml i 'barthau' penodol iawn rhwng y tir a'r môr felly maent yn agored i unrhyw newidiadau a allai gael effaith niweidiol ar eu cynefin. Mae'r cynefinoedd hyn yn creu un o dirweddau hynotaf Sir Gaerfyrddin ac yn cyfrannu i gymeriad y sir.

Er bod traethau gro wedi'u gwasgaru'n eang o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, gyda'r gro'n dal i symud ac unrhyw llystyfiant yn cael ei gyfyngu i gymunedau dros dro ar y traethlin, mae'r strwythurau **gro arfordirol gyda llystyfiant** sydd uwchlaw cyrraedd arwaith y tonnau yn brin ac yn cynnal cymunedau arbenigol o blanhigion ac infertebratau.

Ceir dri darn o ro arfordirol gyda llystyfiant yn Sir Gaerfyrddin: ym Mhenrhwyngwyn, Machynys i'r de o Lanelli, Morfa Bychan i'r gorllewin o Bentywyn ac yng Nghefn Padrig, yn union i'r dwyrain o Borth Tywyn.

Mae **morfa heli** yn cynnwys rhannau uchaf, gyda llystyfiant gwastadeddau mwd rhynglanw, sydd wedi'u lleoli rhwng llanw bach cymedrig y penllanw a llanw mawr cymedrig y penllanw. Mae angen gwaddod yn cronni, a chysgod rhag arwaith cryf y tonnau ar forfa heli. Mae llawer i'w canfod felly ar forydau cysgodol.

Mae llawer o'r planhigion sy'n tyfu ar forfa heli yn haloffyti (yn gallu goddef halen) ac wedi ymaddasu i gael eu gorchuddio'n rheolaidd gan y llanw. Yn nodweddiadol, cânt eu rhannu'n barthau a bennir gan ba mor aml y gall y rhywogaeth dan sylw oddef cael ei throchi.

Mae morfa heli'n darparu manau clwydo pwysig adeg y penllanw i adar hirgoes (rhydwyrr) ac adar dŵr sy'n bwydo a y gwastadeddau mwd cyfagos. Maen nhw hefyd yn gweithredu fel safleoedd bridio i amrywiaeth o rywogaethau ac yn darparu manau bwydo i heidiau mawr o hwyaid a gwyddau gwyllt. Gall cynefin morfa heli hefyd gynnal nifer o rywogaethau anghyffredin o infertebratau a darparu safleoedd cysgodol fel meithrinfa i sawl rhywogaeth o bysgod.

Mae morfeydd heli arfordirol yn systemau dynamig sydd fe arfer yn amrywio'n naturiol, yn enwedig ar hyd yr ymyl symudol tuag at y môr. Mae erydu a

## Cynefinoedd Arfordirol



© Isabel Macho

### Manteision naturiol cynefinoedd arfordirol

Yn ogystal â gwerth cynhenid y cynefinoedd hyn a'u gwerth i'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal, maen nhw'n darparu nifer o fanteision naturiol i ni:

- Darparu amddiffynfeydd arfordirol am ddim.
- Darparu bwyd – pysgod a physgod cregyn.
- Twristiaeth a hamdden!
- Amaethyddiaeth – cig oen morfa heli, gwrtaith gwymon. Tywod a graean i ddiwydiant.

**Pam mae cynefinoedd arfordirol yn newid** (o adroddiad *State of Nature*: [www.rspb.org.uk/stateofnature/](http://www.rspb.org.uk/stateofnature/))?

- Colli cynefin wrth ddatblygu.
- Lefel y môr yn codi.
- Darnio cynefinoedd.
- Mwy o bwysau hamddena.
- Twyni tywod a chlogwyni meddal yn sefydlogi.

**Associated priority species (DS efallai nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr):**

#### Adar:

Ehedydd Llinos

Bras melyn,

Gwylan y penwaig

Gylfinir

Cornchwiglen

Cwtiad torchog

Gwylan benddu

thwf mewn ymateb i brosesau arfordirol naturiol yn nodwedd gyffredin felly o gynefinoedd morfa heli. Er gwaethaf eu natur ddynamig, fodd bynnag, mae morfeydd heli'n fodd effeithiol o wasgar ynni tonnau a gallant felly chwarae rôl bwysig yn amddiffyn ein morlinau.

Mae arfordir Sir Gaerfyrddin a Moryd Byrri yn un o'r ardaloedd pwysicaf i'r cynefin yma yng Nghymru, yn cynnal yr ardal ddi-dor ail fwyaf o forfa heli yn y Deyrnas Unedig – dim ond y Wash sydd ag ardal fwy. Mae aberoedd Tywi, Taf a Gwendraeth hefyd yn cynnwys ardaloedd sylweddol o forfa heli. Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn cynnwys Moryd Byrri ac aberoedd Taf, Tywi a Gwendraeth, a chafodd ei dynodi'n rhannol oherwydd ei chynefin morfa heli.

O'r cymunedau morfa heli amrywiol sydd wedi'u nodi yn Sir Gaerfyrddin, rydym yn lwcus i fod ag enghraifft dda o 'ddôl heli Atlantig', sydd o bwys rhyngwladol. Mae morfeydd heli nad ydynt yn cael eu pori, sydd hefyd yn adnodd prin, wedi'u cynrychioli'n dda ar aberoedd Taf a Gwendraeth.

Mae twyni tywod yn amlwg iawn ar hyd cyfran uchel o forlin Sir Gaerfyrddin, tra mae amddiffynfeydd môr o wneuthuriad dyn i'w gweld yng nghornel de-ddwyreiniol adeiledig y sir. Er bod llinellau clogwyn ffosilaidd (e.e. i'r dwyrain o Bentywyn) i'w cael y tu ôl i'r twyni a chynefinoedd eraill, mae dau brif grynodiad o **glogwyni a llethrau arforol** yn y sir:

- Y clogwyni Hen Dywodfaen Coch i'r gorllewin o Lansteffan, rhwng aberoedd afon Taf ac afon Tywi; ynghyd ag allgrraig fechan i'r de o Lanyfferi.
- Yr ardaloedd ehangach o glogwyni ar hyd darn Amroth– Marros–Pentywyn o'r arfordir.

Yn wahanol i Sir Benfro, nid yw'n clogwyni ni'n gartrefi i nythfeydd o adar môr, ond ar ddarnau o glogwyni megis i'r gorllewin o Bentywyn ac ar Benrhyn Llansteffan ceir rhywfaint o wylanod, adar drycin y graig a'r hebog tramor ysgylfaethus. Fodd bynnag, ceir planhigion nodedig fel briger Gwener ar glogwyn twffa gerllaw Craig Ddu.

Mae **twyni tywod arfordirol** yn datblygu lle mae cyflenwad digonol o dywod yn y parth rhynglanw i ffurfio arwynebedd o draeth, lle mae'r wyneb yn sychu rhwng dau lanw. Caiff y tywod sych ei chwythu tua'r tir a'i ddyddodi uwchlaw'r mar

## Rhostog gynffonddu

### Mamaliaid:

Ysgyfarnog

### Infertebratau:

Gweirlöyn bach y waun

Glas bach

Gwibiwr llwyd

Gweirlöyn llwyd

Gweirlöyn y cloddiau

Cardwenynyn lwydfrown

Cardwenynen goesgoch

'Silky Gallows-spider'

Chwilen ddaear y groes

Malwen droellog geg gul

Gwalchwyfyn gwenydaidd ymyl gul

Corrach gwridog (gwyfyn)

Gwyfyn gwensgod gwar rhesog

Brychan y wermod (gwyfyn)

Gwyfyn rhesen lydan dywyll

Rhwyll bluog (gwyfyn)

Teigr yr ardd

Ton arfor.

### Ymlusgiaid:

Madfall

Gwiber

Llyffant dafadennog.

### Planhigion/isblanhigion:

Crwynllys Cymreig Haidd y morfa

Tegeirian y fign galchog

Murwyll arfor

Helys pigog

Stricta canariensis (cen)

Edeufwsogl arfor

Crafancfwsogl y mynawyd

Llysiâu'r afu petalaidd

Penigan y porfeydd

Briger Gwener

Tegeirian pêr

Mwsogl troellog Wilson.

### Ardaloedd gweithredu â blaenoriaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:

#### Twyni tywod

- Twyni Tywod Lacharn a Pentywyn

- Twyni Tywod Pen-bre

- Twyni Doc y Gogledd (morglawdd Llanelli)

- Twyni Morfa Uchaf a Glanyfferi

penllanw, lle gall gweiriau arbenigol sy'n creu twyni ei ddal. Maes o law caiff y tywod ei gytfredu gan ragor o gymunedau planhigion sy'n nodweddiadol o amodau mwy sefydlog.

Fel arfer mae systemau twyni tywod yn cynnwys nifer o barthau gwahanol, yn cynnwys twyni embryonig a symudol twyni lled sefydlog, glaswelltir twyni sefydlog a llaciau (a geir mewn pantiau llaith rhwng cribau'r twyni).

Gall systemau twyni tywod, yn enwedig rai calchaid, gynn ystod hynod o amrywiol o blanhigion ac anifeiliaid a darpar cynefin i amrywiaeth o rywogaethau sydd wedi ymaddasu' arbennig, yn cynnwys nifer o blanhigion, ffyngau ac infertebratau anghyffredin.

Mae cyfran sylweddol o adnodd twyni tywod Cymru yn Sir Gaerfyrddin. Ceir yma ddwy system twyni tywod fawr, sef Twyni Lacharn–Pentywyn a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Pen-bre; mae enghreifftiau llai hefyd yn Llansteffan, Glanyfferi, Porth Tywyn a Llanelli. Yn hanesyddol, byddai'r rhain wedi cael eu pori a byddent yn llawer mwy symudol; yn rhannol oherwydd rhoi'r gorau i'w pori mae'r llystyfiant wedi cynyddu'n fawr a'r twyni wedi troi'n fwy sefydlog. Nid yn unig y mae'r planhigion goresgynnol, rhafnwydd y môr, wedi lledaenu, ond mae coed a llwyni eraill, gweiriau bras a phlanhigion lluosflwydd wedi newid y cynefin o'r twyni agored cymharol noeth sy'n cael eu ffafrio gan rywogaethau prin fel tegeirian y fign galchog (fe'u hystyrir yn ddiflanedig yn y sir) i amgylchedd gyda llystyfiant llawer mwy trwchus. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, gwnaed llawer o ymdrech i glirio rhafnwydden y môr o'r systemau twyni pwysig hyn ac rydym yn dechrau gweld y buddion.

Serch hynny, mae'r twyni'n dal yn eithriadol o gyfoethog mewn bywyd gwyllt, gydag amrywiaeth o gynefinoedd o flaendraeth, i laciau twyni gwlyb ('pantiau') hyd at goetir gwern, helyg a bedw ifanc. Mae ysgyfarnogod yn dal i ffynnu ar yr ardaloedd agored, a darganfuwyd chwilen brin, *Panageus crux-major*, ar Drwyn Tywyn yn 1985. Mae llawer o infertebratau prin neu anghyffredin eraill wedi cael eu canfod yn systemau twyni Sir Gaerfyrddin – gyda britheg y gors ar safle RAF Pen-bre a mwy na 30 rhywogaeth o ieir bach yr haf wedi cael eu gweld yn yr un ardal o dwyni. Mae ieir bach gwynion yn rhywogaethau nodweddiadol, ond ceir hefyd leision bychain a gwibwyr brith a hen gofnodion o'r argws glas. Mae yma hefyd amrywiaeth diddorol o degeirianau a phlanhigion blodeuol eraill.

## Clogwyni meddal arfordirol yng Nghymru

- Tywyn Bach–Porth Tywyn
- Craig Ddu i Gastell Llansteffan
- Arfordir Marros Pentwyn

## Gro arfordirol gyda llystyfiant



## Twyni tywod arfordirol



## Morfa heli



Partneriaeth Natur  
SIR GŶR • CARMARTHENSHIRE  
Nature Partnership



## **Ble gallwch chi ymweld â'r cynefinoedd hyn yn Sir Gaerfyrddin:**

**Gro arfordirol gyda llystyfiant:** ceir tri darn o ro arfordirol gyda llystyfiant yn Sir Gaerfyrddin: ym Mhenrhngwyn, Machynys i'r de o Lanelli Morfa Bychan i'r gorllewin o Bentywyn ac yng Nghefn Padrig, yn union i'r dwyrain o Borth Tywyn.

**Morfa heli:** Canolfan Gwlyptir Genedlaethol Cymru ym Mhenclacwydd ac o Barc Arfordirol y Mileniwm ar Warchodfa Natur Leol Doc y Gogledd Gwarchodfa Natur Leol Twyni Tywod Pen-bre (mae'r olaf yn un o'r enghreifftiau gorau o forfa heli heb ei bori)

**Clogwyni môr:** clogwyni i'r gorllewin o Lansteffan; clogwyni ar hyd darn Amroth–Marros–Pentywyn o'r arfordir.

**Twyni tywod:** mae yma ddwy system twyni tywod fawr sef Twyni Tywod Lacharn–Pentywyn a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Arfordir Pen-bre; ceir enghreifftiau llai hefyd yn Llansteffan, Glanyfferi, Porth Tywyn a Llanelli.

### **Datganiad o weledigaeth ac amcanion**

Gweledigaeth gyffredinol y cynllun hwn yw gofalu am, adfer ac ymestyn y cynefinoedd hyn yn y sir a'r rhywogaethau blaenoriaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Bydd cynnal y systemau naturiol hyn hefyd yn dod â budd o safbwynt amddiffyn rhag llifogydd pysgodfeydd a rheoli erydu arfordirol. Byddai unrhyw weithredu yn ceisio cyflawni un neu fwy o'r amcanion isod:

- ▶ Rheoli'r cynefinoedd arfordirol hyn yn Sir Gaerfyrddin mewn modd cadarnhaol a'u cysylltu a'u hehangu lle mae hynny'n bosib.
- ▶ Cynnal ac ehangu'r ystod a/neu'r boblogaeth o rywogaethau sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gynefin.
- ▶ Nodi a chofnodi ardaloedd o gynefin arfordirol y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn Sir Gaerfyrddin
- ▶ y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- ▶ Codi ymwybyddiaeth o gynefinoedd arfordirol a'r manteision a gawn ni yn eu sgil.

### **Dolenni defnyddiol:**

[www.biodiversitywales.org.uk/Arfordirol](http://www.biodiversitywales.org.uk/Arfordirol)

[www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/coastal](http://www.wildlifetrusts.org/wildlife/habitats/coastal)


<http://jncc.defra.gov.uk/page-1429>



**Mapiau wedi'u defnyddio gyda chaniatâd Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2004. Tynnwyd o *Priority Habitats of Wales: a technical guide, golygyddion P. S. Jones, D. P. Stevens, T. H. Blackstock, C. R. Burrows ac E. A. Howe., 2003.***


Atgynhychwyd o'r map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Cedwir Hawlfraint y Goron -LA0997L

### Twyni tywod arfordirol




Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin twyni tywod arfordirol yn Sir Gaerfyrddin a chelloedd/is-gelloedd gwaddod. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Tir Isel yr NCC/Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997) ac mae'n cynnwys twyni agored, glaswelltir twyni, llaciau twyni, rhostir twyni a phrysgwydd twyni.

### Clogwyni a llethrau arfordrol



Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda chynefin clogwyni a llethrau arfordrol yn Sir Gaerfyrddin a chelloedd/is-gelloedd gwaddod. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Tir Isel yr NCC/ Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997) ac mae'n cynnwys clogwyni arfordirol caled a meddal, glaswelltir arfordirol, rhostir arfordirol a brithwaith glaswelltir/rhostir arfordirol.

## Morfa heli



Dosbarthiad sgwariau 1 km gyda morfa heli yn Sir Gaerfyrddin a chelloedd/is-gelloedd gwaddod. Crynhowyd y data o Arolwg Cynefinoedd Tir Isel yr NCC/ Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1987 – 1997) ac mae'n cynnwys morfa heli dwys/di-dor.